Cofnodion Cyfarfod CCG 31.3.22

Cynhaliwyd yn Neuadd Cymuned Glantwymyn ac ar-lein

*19:340: Presennol*: Gareth Wyn Jones, (Cadeirydd), Deryck Williams, Bedwyr Fychan, Paul Hughes, Iwan Jones, Gareth Owen, William Owen, Huw Williams, Aeron Pughe, Gwenfair Davies, Gwen Lloyd, Sandra Evans (Clerc)

*19:341: Ymddiheuriadau*: Rhodri Wigley, Elwyn Vaughan, Aled Griffiths

*19:342: Datganiadau o ddiddordeb*: Dim

19:342: *Cyflwyno a derbyn cofnodion Chwefror 2022* Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Bedwyr Fychan. Fe'i heiliwyd gan Gareth Owen.

*19:343: Adroddiad y Clerc*: Eglwysi Llanwrin a Darowen. Nodwyd bod ymweliad Y Parchedig Miriam Beecroft wedi cael ei gohirio. Bydd Brian Roberts yn rhoi amcan bris bras i'r Cygnor ddod o hyd i ffynhonellau ariannol i adfer y wal a'r bwâu yn Llanwrin. Mae'r Cyngor wedi cael cymorth pellach gan Un Llais Cymru, NALC a Llyfrgell Genedlaethol Cymru wrth archwilio i ddogfenaeth yn ymwneud â'r eglwysi yn Llanwrin a Darowen

*19:344: Materion yn codi o'r Cofnodion Nodwyd y dylid ychwanegu bod y Cyngor wedi cymeradwyo cais cynllunio Mathafarn 21/0183/AGR*
*19:345: Eglwysi Darowen a Llanwrin –*

- *Atgyweirio'r mynwentydd – ariannu, ffynhonellau posib gan gynnwys yr eglwys*
- *Dyfodol claddedigaethau yn Llanwrin Penderfynwyd gwneud ymchwiliadau pellach i ddod o hyd i fap claddedigaethau, cysylltu â Dilwyn Rees i weld pa gynllun y mae e'n ei ddefnyddio gan fod angen i'r Cyngor wybod rhag ofn bod ymgymerwyr eraill yn dod at y Cyngor ac angen gwybodaeth. Cysylltir hefyd â Mrs. Nora Wigley a Mr. Pughe Penygraig am unrhyw wybodaeth sydd gynnyn nhw. Ystyrir gwneud map/mapiau newydd.*
- *Cadarnhau perchnogaeth a chyfrifoldeb eglwys Llanwrin – nodwyd bod Un Llais Cymru, PAVO, NALC a Llyfrgell Genedlaethol Cymru erbyn hyn yn ymchwilio i berchnogaeth y mynwentydd*
- *Cyfarfod diweddar yn eglwys Darowen - Nodwyd bod y cyfarfod hwn wedi cael ei ohirio tan ar ôl amser wyna*
- *Atgyweirio a thocio'r goeden. Bydd Brian Roberts yn rhoi bras amcan o gostau atgyweirio wal a bwâu eglwys Llanwrin a ffens a wal eglwys Darowen. Nodwyd bydd y gwaith yn cael ei dendro ond bod rhyddid gan y Cyngor i ddewis y gweithwyr. Nid oedd gan CADW restr benodol ar gyfer contractwyr. O ran yr ywen a choed eraill ym mynwent Llanwrin a Darowen, gofynnir i syrfëwr archwilio i'r mater i weld beth yn union sydd angen ei wneud.*
- *Nodwyd bod nifer o gerrig beddau mewn wedi dirywio ac yn achosi perygl posib i''r cyhoedd. Cysylltir â'r teuluoedd perthnasol yn y lle cyntaf a gofyn iddyn nhw naill ai osod y ceriig bed yn wastad neu eu hail osod neu roi caniatâd i'r Cyngor wneud.*
- *Bydd arwydd yn cael ei godi i rybuddio'r cyhoedd am y bwa peryglus yn Llanwrin*

*19:345:* Cynllunio – 21/2361/LBC Tan y Ffordd, Cemaes, Machynlleth SY20 9PU- Tynnu wal fewnol. Cynigiwyd y dylid cymeradwyo'r cais gan Paul Hughes ac fe'i heiliwyd gan Gwen Lloyd.

*19:346: Materion ariannol ac eitemau i'w talu*

- *Cyflog y Clerc – Chwefror 2022 £302.40*

- *CThEM £60.03 swm ychwanegol sy'n ddyledus ar gyfer mis 9 gan gynnwys llog hyd at 16.03.22 (25c)*
- *Aelodaeth Un Llais Cymru: £233*
- *Costau offer angenrheidiol seinydd Jabra speak 510 £ 79.99*
- *Whittingham Riddell £90.00*

*19:347: Torri gwair mynwentydd Darowen a Llanwrin* – Penodwyd Peter Jones ar gyfer y flwyddyn nesaf am £1800.00 o bunnau. Bydd y cytundeb amodol ar gadw'r mynwentydd y gryno ac yn daclus yn hytrach nag ar y nifer o doriadau.

19:348: Etholiadau Trafodwyd ffurflenni enwebu. Cafwyd ar ddeall bod gan Glyn Jones ddiddordeb mewn sefyll dros Ward Darowen.

*19:349: Adroddiadau'r Cynghorwyr*

*Neuadd Cymuned Glantwymyn- Paul Hughes. Nodwyd bod problem gyda'r gwres yn ddiweddar gan obeithio na fyddai hynny yn amharu ar y defnydd o'r neuadd.*

*19:350: Gohebiaeth*: Cafwyd llythyr gan Mrs. Nora Wigley i ddiolch am y cyfraniad at Neuadd Cymuned Glantwymyn.

*19:351:* Materion *Priffyrdd a Phontydd*
*Adroddir eto nifer o eitemau sydd heb gael eu datrys:*

- *Pryderon am y dibyn ar y ffordd o Lanwrin i Ffridd Gate. Mae dau o'r polion diogelwch wedi cael eu difrodi gydag un ar lawr a'r llall wedi cael ei blygu gan ddangos bod cerbydau wedi bod yn agos at y dibyn yn ddiweddar. Tynnwyd sylw at berygl y ffordd honno gyda nifer o aelodau'r cyhoedd yn codi pryderon yn ei chylch.*
- *Goleuadau ddim yn gweithio yng Nglantwymyn Nodwyd bod CR 72 a CR 73 yn ddiffygiol o hyd. Gwneir cais am adfer un ohonynt o leiaf ac am osod lamp ger y bwlch yn y wal le tynnwyd lamp o'r blaen wrth wneud y lle parcio Newydd. Pwysleisir bod angen golau yno er iechyd a diogelwch ac atal lladron yn sgil digwyddiadau tebyg yn ddiweddar yn y pentref.*
- *Lamp yng Ngheinws wedi torri CWS 14*
- *Pont Comins – Cysylltir eto gydag Adran y priffyrdd. Tynnir sylw at yr oedi y mae'r goleuadau traffig yn ei greu a hefyd at y ffaith bod lori wedi syrthio oddi ar y ffordd a bwrw Tŷ'r Ysgol yn y gorffennol pan oedd goleuadau yno a bod pryderon mawr y gall yr un peth ddigwydd eto.*

*Mae eitemau newydd yn cynnwys:*

- *Pafin peryglus o ganlyniad i'w gyflwr gwael yng Nglantwymyn rhwng Maesteg a Goleufryn gan achosi perygl mawr i'r henoed ac eraill sy'n ei ddefnyddio.*
- *Mynegwyd diolch i weithwyr cwmni M Coates, Trefeglwys am eu gwaith ardderchog o ran cynnal a chadw a glanhau trensys ar y ffordd gefn o Ffridd Gate i Bantperthog a Chwm Ffrydlan*
- *Twll yn y ffordd o ganlyniad i geir yn troi ar y ffordd fach i gaeau Aberffrydlan, rhwng Abernant a Brynberllan*
- *Dŵr ar y ffordd ger Brynberllan*
- *Pryderon yn parhau am ddŵr yn mynd i weithdy yn Llanwrin. Ceisiwyd trefnu cyfarfod ar y safle.*

*19:352: Unrhyw fater Arall.*

- Eglwys Darowen – gohiriwyd y cyfarfod i drafod dyfodol yr eglwys yn Narowen tan y mis nesaf.
- Gobeithio trefnu cyfarfod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i drafod effaith afancod yn Nyffryn Dyfi.

- Tynnwyd sylw at gynllun Llywodraeth Cymru i wella mynediad at ddiffibrilwyr yng Nghymru. Anfonir y wybodaeth at grwpiau sy wedi mynegi diddordeb mewn gosod diffibrilwyr e.e. Ceinws. Nodwyd bod Un Llais Cymru'n gwneud arolwg o leoliadau diffibrilwyr ledled Cymru gyfan a chysylltir â nhw am wybodaeth am ddiffibrilwyr yn yr ardal.

Mae cynllun diffibrilwyr gan Lywodraeth Cymru. Datganiad y Gweinidog Iechyd am £500,000 i gynyddu mynediad at ddiffibrilwyr yng Nghymru. Ceir gwybodaeth yma:

Cyllid newydd i gynyddu mynediad at ddiffibrilwyr yng Nghymru | LLYW.CYMRU

Ceir gwybodaeth a ffurflen gais ar gyfer Cynllun Diffibrilwyr Cymunedol y Llywodraeth (dyddiad cau 30 Ebrill) yma: Gwnewch gais am ddiffibriliwr mynediad cyhoeddus cymunedol | LLYW.CYMRU

Ceir cofrestru diffibrilwyr gyda'r gwasanaeth ambiwlans, er mwyn cynyddu effeithlonrwydd yma:

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru - Cynllun Diffibriliwr Mynediad Cyhoeddus (PADS) (wales.nhs.uk)

- Mynychodd nifer o gynghorwyr gyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar i gynyddu darpariaeth feithrin yn yr ardal drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd pa mor braf oedd gweld cymaint o frwdfrydedd gan bob ifanc yr ardal dros gael y gwasanaeth hwn yn y Gymraeg, a gwneud hynny wrth barchu ac yn gweithio ar y cyd â'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes gan y Mudiad Ysgolion Meithrin

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30
Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Iau 29.4.22

---

**Cyfarfod Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt 31.3.22**

Cafwyd cais am arian gan Gapel y Methodistiaid, Cemaes. Penderfynwyd rhoi £250.00 tuag at gostau cynnal y fynwent.